OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 No. 713

## Rheoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru 2010

## RHAN 5

Apelau Treth Gyngor

**Tystiolaeth: cyffredinol**

**38.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i wybodaeth a gyflenwir yn unol â rheoliadau o dan adran 13 o Ddeddf 1992 neu Atodlen 2 i'r Ddeddf honno.

(2) Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau canlynol y rheoliad hwn, bydd gwybodaeth y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddi yn dderbyniadwy mewn unrhyw achos perthnasol fel tystiolaeth o unrhyw ffaith a nodir ynddi; a rhaid cymryd yn ganiataol bod unrhyw ddogfen sy'n dynodi ei bod yn cynnwys gwybodaeth o'r fath, oni phrofir yn wahanol—

(a) wedi ei chyflenwi gan y person y mae'n dynodi iddi gael ei chyflenwi ganddo; a

(b) wedi ei chyflenwi gan y person hwnnw yn rhinwedd unrhyw swyddogaeth y dynodir iddi gael ei chyflenwi ganddo.

(3) Ni chaiff awdurdod bilio ddefnyddio gwybodaeth y mae'r rheoliad hwn yn berthnasol iddi mewn unrhyw achosion perthnasol—

(a) oni fydd cyfnod o rybudd o ddim llai na dwy wythnos wedi ei roi ymlaen llaw i bob parti arall yn yr achos, gan nodi'r wybodaeth y bwriedir ei defnyddio felly a'r annedd neu'r person y mae'r wybodaeth yn berthynol iddi neu iddo; ac

(b) oni fydd unrhyw berson, nad yw wedi rhoi dim llai na 24 awr o rybudd o'i fwriad i wneud hynny, wedi ei ganiatáu gan yr awdurdod, ar unrhyw adeg resymol—

(i) i archwilio'r dogfennau a chyfryngau eraill y delir y wybodaeth ynddynt neu arnynt; a

(ii) i wneud copi o unrhyw ddogfen neu unrhyw ddarn o ddogfen sy'n cynnwys gwybodaeth o'r fath.

(4) Os nad yw unrhyw wybodaeth y mae angen ei rhoi ar gael i'w harchwilio yn unol â'r rheoliad hwn yn cael ei chadw ar ffurf dogfen, bodlonir y ddyletswydd i sicrhau bod yr wybodaeth ar gael felly os sicrheir bod allbrint, ffotograff neu atgynhyrchiad arall o'r wybodaeth, a adalwyd o'r cyfrwng storio a ddefnyddir i gadw'r wybodaeth honno, ar gael i'w archwilio.

(5) Yn y rheoliad hwn, ystyr "achos(ion) perthnasol" yw unrhyw achos(ion) ar, neu o ganlyniad i apêl, ac unrhyw achos(ion) ar neu o ganlyniad i atgyfeirio ar gyfer cymrodeddu o dan reoliad 45.